Mynegiant o Ddiddordeb: **Astudiaeth effaith, Datblygu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd yng Nghymru**

Crynodeb o'r Briff
Hoffai British Council Cymru gomisiynu astudiaeth o ysgolion cynradd penodol sydd wedi cyflwyno ieithoedd rhyngwladol fel rhan o'u cwricwlwm eisoes, gyda'r nod o gael gwell dealltwriaeth o'r sail resymegol a'r methodolegau a ddefnyddiwyd a chael tystiolaeth o unrhyw effaith ar gyrhaeddiad er mwyn sicrhau bod modd rhannu arferion gorau.

Mae Cwricwlwm Cenedlaethol newydd Cymru, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad, ac un o'r rhain yw Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Bydd y maes yn cynnwys Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol rhwng 3 ac 16 oed, a'r nod yw datblygu pobl ifanc sy'n hyfedrus yn siarad Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill. Mae potensial felly i'r cwricwlwm newydd fod yn arf grymus ar gyfer gweithredu gweledigaeth y Llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ogystal â Chymru sy'n 'ddwyieithog a mwy' yn unol â'i strategaeth *Dyfodol Byd-eang*. Ar yr un pryd, dylai gefnogi ymdrechion i godi safonau o ran llafaredd a llythrennedd yn gyffredinol a gwella sgorau PISA mewn darllen.

Nid yw ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg yn rhan o gwricwlwm cynradd prif ffrwd Cymru, er bod tua 25% o ysgolion cynradd yn dweud eu bod yn darparu o leiaf rywfaint o fynediad at ddysgu ieithoedd modern i'w disgyblion eisoes. Roedd ein gwaith ar Ymchwil Tueddiadau Ieithoedd 2015/16 oedd yn cynnwys adborth gan ysgolion cynradd yn awgrymu, er bod mwyafrif yr athrawon ysgolion cynradd yn cefnogi'r syniad o gyflwyno dysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd, bod llawer yn pwysleisio bod angen rhagor o hyfforddiant ac adnoddau.

Mae datblygu'r cwricwlwm newydd yn cynnig cyfle unigryw ar gyfer arloesi a threialu dulliau dychmygus newydd er mwyn datblygu agweddau cadarnhaol a gwell cyrhaeddiad mewn pynciau iaith ymhlith disgyblion o bob gallu. Ar hyn o bryd, mae Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Tramor Modern yn tueddu i gael eu gweld fel pynciau ar wahân, fel pynciau sy'n cystadlu hyd yn oed, ond mae potensial mawr, yn ein barn ni, ar gyfer datblygu cyd-ymdrech a mynd i'r afael â heriau sy'n hysbys mewn ffordd gyfannol.

Mae gennym dystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod rhai ysgolion cynradd yng Nghymru wedi llwyddo i gynnwys ieithoedd tramor modern yn eu cwricwlwm, a bod hyn wedi arwain at well cyrhaeddiad. Rydym yn awyddus i graffu ymhellach ar hyn a cheisio nodi tystiolaeth fwy cadarn o sgiliau iaith a chanlyniadau gwell eraill.

Rhagwelwn y bydd yr astudiaeth hon yn edrych ar yr elfennau canlynol:

1. Dadansoddiad o'r sail resymegol ar gyfer penderfyniad y pennaeth i gynnwys ieithoedd tramor modern yn eu cwricwlwm. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu a chytuno gyda llywodraethwyr yr ysgol, rhieni ac athrawon.

2. Dadansoddiad o'r modd y cafodd y gwaith o gyflwyno ieithoedd tramor modern ei gynllunio a'i weithredu. Bydd hyn yn cynnwys penderfyniadau ar ba ieithoedd i'w cyflwyno; y gofynion iaith ar staff a'u lefelau; unrhyw ddatblygiad proffesiynol parhaus yr oedd gofyn amdano; datblygu a gweithredu'r cwricwlwm; yr adnoddau angenrheidiol (gan gynnwys staff amser llawn/rhan-amser ychwanegol neu staff dros dro gyda phrofiad o ieithoedd tramor modern, a deunyddiau dysgu/cyfeirio).

3. Asesiad ansoddol a meintiol o'r rôl mae ieithoedd tramor modern wedi'i chwarae o ran gwella cyrhaeddiad. Bydd hyn yn cynnwys adborth ansoddol gan benaethiaid, athrawon

a llywodraethwyr (ac unrhyw adborth o'r ysgolion uwchradd sy'n cael eu bwydo lle bo hynny'n berthnasol) yn ogystal ag unrhyw effaith feintiol e.e. ar brofion llythrennedd / rhifedd ac ati.

4. Cyfres graidd o argymhellion ar y modd y gellid gweithredu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd a sut y byddai modd olrhain dadansoddiad o ganlyniadau tymor hwy o ran cyrhaeddiad.

Y British Council a'n gwaith gydag ysgolion ac ieithoedd tramor modern
Sefydlwyd y British Council ym 1934. Rydym yn gweithio mewn mwy na chant o wledydd ac yn cysylltu miliynau o bobl gyda'r Deyrnas Unedig drwy ein gwaith ar Saesneg, y celfyddydau, addysg a'r gymdeithas. Corff Cyhoeddus Anadrannol ydyn ni, a'r adran sy'n ein noddi yw'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Rydym yn annibynnol wrth weithredu ond yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau polisi'r Deyrnas Unedig.

Fel rhan o'n hymrwymiad i hybu rhyngwladoldeb yng Nghymru, mae'r British Council wedi datblygu rhaglen o waith sydd â'r nod o annog dysgu ac addysgu ieithoedd rhyngwladol yn ysgolion Cymru.

Mae ein harolwg cenedlaethol blynyddol o gyflwr ieithoedd rhyngwladol, *Tueddiadau Ieithoedd Cymru*, yn ei bedwaredd flwyddyn. Rydym yn aelodau o grŵp llywio polisi Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru, ac yn cyd-ariannu rhaglen Llwybrau at Ieithoedd Cymru gyda phrifysgolion. Mae'r British Council yn bartner cydweithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar brosiect ymchwil doethurol sy'n cael ei ariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol sy'n edrych ar bolisi ieithoedd rhyngwladol. Rydym yn arwain prosiect a ariennir gan Sefydliad Paul Hamlyn, Cerdd Iaith, sy'n peilota dull newydd o ddefnyddio cerddoriaeth i edrych ar y modd mae plant yn caffael Sbaeneg mewn deg ysgol gynradd. Rydym yn darparu siaradwyr brodorol i gefnogi gwaith dysgu yn y dosbarth drwy raglen hirsefydlog y Cynorthwywyr Iaith.

Rydym yn ariannu neu'n rheoli cyfres o raglenni sy'n cynnig cyfleoedd rhyngwladol yng Nghymru. Mae'r hyn sydd gennym i'w gynnig yn cynnwys: Erasmus+, rhaglen yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon[i]; Cysylltu Dosbarthiadau, taith ddysgu ar gyfer athrawon sy'n eu helpu i wella eu harferion yn yr ystafell ddosbarth ac i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol newydd; a'r Rhaglen Addysg Ryngwladol sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Dull a methodoleg:
Bydd disgwyl i'r tîm ymchwil weithio gyda British Council Cymru i ddiffinio union gwmpas y gwaith a'r fethodoleg a ddefnyddir. Er ein bod wedi nodi rhai ysgolion cynradd ar gyfer yr astudiaeth eisoes, byddwn yn disgwyl i'r tîm ymchwil a ddewisir nodi ysgolion perthnasol hefyd er mwyn sicrhau bod carfan astudio o ryw ddeg ysgol.

Bydd y tîm ymchwil:

- Yn nodi 8-10 ysgol gynradd yng Nghymru (gan gynnwys cymysgedd o ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) sydd wedi cyflwyno ieithoedd rhyngwladol fel rhan o'u cwricwlwm, gan gynnwys o leiaf un ysgol o bob un o'r pedwar Consortiwm Addysg Rhanbarthol.
- Yn cynnal cyfweliadau gyda'r uwch dîmau arwain ac athrawon, arweinwyr system, uwch-swyddogion ac arbenigwyr polisi er mwyn dod i ddeall y sail resymegol sy'n gysylltiedig â gweithredu trefn o ddysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd yng ngyd-destun y cwricwlwm newydd, archwilio rhai o'r rhwystrau a'r heriau ymarferol i weithredu'n

effeithiol, a datgelu effaith bosib yr ymyrraeth ar gyrhaeddiad disgyblion a'u hagweddau at ieithoedd a meddwl yn rhyngwladol.
- Yn disgrifio'r amrywiaeth o ddulliau sydd wedi'u gweithredu er mwyn cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn yr ysgolion, ac yn cynnig asesiad o'u heffaith
- Yn asesu tystiolaeth er mwyn canfod pa fathau o fanteision, os o gwbl, y mae cyflwyno ieithoedd rhyngwladol wedi'u cael o ran cyrhaeddiad disgyblion, eu llythrennedd, eu llafaredd a'u gallu yn y Gymraeg
- Yn cynnwys llais y disgyblion yn yr ymchwil drwy arolygon, grwpiau ffocws, ayyb, o ddisgyblion Blwyddyn 5-6 yn yr ysgolion cynradd ble mae ymyrraeth wedi ei weithredu, ac hefyd mewn ysgolion cynradd tebyg ble na fu ymyrraeth o gwbl.

Cwestiynau ymchwil

Dyma rai o'r cwestiynau ymchwil y gall y tîm ymchwil eu harchwilio ar gyfer yr adroddiad terfynol:

1. Pam y mae'r ysgolion a glustnodwyd ar gyfer yr ymchwil wedi penderfyu cyflwyno ITM ar y lefel gynradd?

2. Ym mha ffyrdd aethpwyd ati i weithredu'r amcan honno?

3. Pa rwystrau a weithiodd yn erbyn llwyddiant y cynllun ITM a beth a wnaethpwyd i'w goresgyn?

4. Sut mae arweinwyr ysgol wedi ceisio cysylltu cyflwyno ITM ag amcanion polisi egangach?

5. Pa fath o effaith a gafodd yr ymyriadau hyn ar gyrhaeddiad yn gyffredinol, ac ar lythrennedd a sgiliau cyfathrebu'n benodol?

6. Beth oedd yr effaith ar agweddau'r disgyblion tuag at ieithoedd, gan gynnwys lefelau rhuglder yn Gymraeg a/neu Saesneg?

7. A yw'n bosibl mesur yr effaith ar drosglwyddiad i CA3?

8. Beth oedd yr effaith ar y gymuned ysgol ehangach?

9. Sut defnyddiwyd ITM i wella a chefnogi profiad dysgu'r disgyblion?

10. I ba raddau y roedd angen ar athrawon dderbyn dysgu proffesiynol ychwanegol i addysgu ITM, a sut aeth yr ysgolion i'r afael â hynny?

Cyflawniadau
Disgwylir i'r astudiaeth effaith gael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2019 a disgwylir yr allbynnau canlynol:

- Adroddiad drafft terfynol sy'n cynnwys; crynodeb gweithredol, dadansoddiad llawn o elfennau craidd erbyn diwedd mis Chwefror 2019. Rhagwelir y bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys 10-15,000 o eiriau.

- Cyfres o astudiaethau achos (o leiaf bedair), yn amlinellu gwahanol ddulliau a'r canlyniadau yn sgil hynny, erbyn diwedd mis Chwefror 2019.

- Bydd dod i'r cyfarfodydd canlynol yn ofynnol yn ystod amserlen yr astudiaeth: cyfarfod cychwyn y prosiect ym mis Ionawr 2019, dau gyfarfod diweddaru ffurfiol (ddiwedd mis Ionawr a mis Chwefror 2019) a chyflwyno'r canlyniadau yn derfynol (mis Mawrth 2019).

Cymwysterau a Phrofiad
Disgwylir y bydd yr ymatebwyr yn meddu ar y canlynol:

- Profiad sylweddol o weithio ym maes ymchwil addysgol gan ddefnyddio dulliau ansoddol a meintiol.
- Gwybodaeth dda a/neu ddealltwriaeth y gellir ei harddangos o ddysgu ieithoedd tramor modern yng nghyd-destun Cymru
- Dealltwriaeth drylwyr o system ysgolion Cymru – ac yn enwedig y sector cynradd – yn ogystal â diwygiadau polisi presennol, datblygu'r cwricwlwm, cyrhaeddiad, llythrennedd a rhifedd, datblygu athrawon ac arweinyddiaeth.

Amserlen
Dylid cyflwyno mynegiannau o ddiddordeb, heb fod yn hwy na phedair ochr A4, yn crynhoi'r dull a gynigir ar gyfer cynnal yr astudiaeth effaith, cyllideb ddangosol a phrofiad a chymwysterau'r tîm ymchwil, i Dr Walter Brooks drwy WalterAriel.Brooks@britishcouncil.org erbyn dydd Gwener, 11 Ionawr 2019.